
# Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol
# Niwrowahaniaeth Cymru Digwyddiad Ail-lansio
# Dydd Iau, 31 Hydref 2024
# Gwybodaeth Hygyrchedd

**Lleoliad**
Cynhelir y digwyddiad yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Y Deml Heddwch, King Edward VII Ave, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3AP

Home | Temple of Peace
Get Directions

What3Words
Gellir canfod prif fynedfa'r Deml Heddwch yma: ///estate.tags.ranks.

**Sut i gyrraedd yno**
Mae'r Deml Heddwch wedi'i lleoli ar King Edward VII Avenue ym Mharc Cathays, Caerdydd. Mae'r adeilad gyferbyn â Swyddfeydd Llywodraeth Cymru a drws nesa i adeiladau Bute a Redwood Prifysgol Caerdydd.






**Ar Fws**
Mae nifer o fysiau sy'n gollwng teithwyr ger y Deml Heddwch, gan gynnwys Baycar 6 sy'n dechrau ar draws y ffordd i Ganolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd.Mae modd cynllunio eich taith gan ddefnyddio cynllunydd bws Caerdydd. Mae safle bws gyferbyn â'r Deml Heddwch.

Cardiff Bus

**Ar feic**
Os ydych chi'n dod ar feic, rhowch wybod i ni ymlaen llaw er mwyn i ni drefnu man storio beics diogel ar eich cyfer.Mae modd anfon e-bost at rachel.hazlewood@wlga.gov.uk Fel arall, mae gennych ganiatâd gan y Deml Heddwch i gloi eich beic i'r rheiliau y tu blaen i'r adeilad yn ystod y digwyddiad. Sylwer mai eich cyfrifoldeb chi yw diogelwch eich eiddo.

**Ar Drên**
Y gorsafoedd trên agosaf yw:

Cathays - 0.3 milltir (6 munud) Cathays Station | National Rail
Heol y Frenhines Caerdydd - 0.8 milltir (19 munud) Cardiff Queen Street Station | National Rail
Caerdydd Canolog - 1.1 milltir (25 munud) Cardiff Central Station | National Rail

Sylwer bod grisiau serth yng Ngorsaf Drenau Cathays ar y platfform tua'r de ac nid oes mynediad i gadeiriau olwyn.


**Mewn Car**
Dilynwch yr A470 i Gaerdydd, troi i Corbett Road ac yna'r troad nesaf ar y dde. Y Deml Heddwch yw'r ail adeilad ar y dde. Sylwer na chaniateir troi i'r dde oddi ar North Road i College Road.

**Parcio**
Mae gofodau parcio ar gael ar hyd King Edward VII Avenue. Mae'n rhad ac am ddim i ddeiliaid bathodynnau glas cyn belled ag eich bod yn dangos eich bathodyn yn glir.

Mae modd talu am barcio gyda cherdyn. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y peiriant parcio. Mae'r cyfarwyddiadau'n Gymraeg a Saesneg. Sicrhewch eich bod wedi nodi rhif cofrestru eich cerbyd gan y bydd yn gofyn i chi am hyn.

Fel arall, mae modd talu drwy Ap Mipermit neu drwy neges destun. Gweler y sticeri print bras ar ochr y peiriannau parcio i gael rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau.










**Cyrraedd**
Wrth i chi fynd drwy'r brif fynedfa byddwch yn cyrraedd ardal y Dderbynfa. Bydd aelodau o'r tîm ar gael i'ch cyfarch. Byddwn yn gwisgo bathodynnau enw gydag enw ein tîm a'r logo.

Mae 5 o risiau bas o'ch blaen yn eich arwain at y brif Neuadd Farmor.  Er mwyn osgoi'r grisiau, trowch i'r dde a defnyddio'r lifft grisiau. Bydd un o'n tîm neu aelod o staff y Deml Heddwch yno i'ch helpu.





Wrth gyrraedd, fe gewch gynnig bathodyn enw. Bydd nifer o'n gwesteion yn ei gweld yn ddefnyddiol bod pobl yn gwisgo bathodyn enw, ond dim ond os ydych yn gyfforddus yn ei wisgo y dylech wneud hynny.

**Y Digwyddiad a Beth i'w Ddisgwyl**
Mae croeso i chi gyrraedd y lleoliad o 9.30am.

Cynhelir prif ran y digwyddiad yn y Neuadd Farmor. Cedwir y byrddau yn y tu blaen ar gyfer y Siaradwyr, ond mae croeso i chi eistedd wrth unrhyw un o'r byrddau eraill. Bydd Te, Coffi a Dŵr ar gael yn rhad ac am ddim - helpwch eich hunain.

Bydd ein Cadeirydd yn ein Croesawu'n swyddogol am 10am a bydd cyfres o siaradwyr drwy'r bore. Bydd egwyl o 15 munud am oddeutu 11.40am.

Rydym yn gofyn i chi fod yn barchus pan fydd y Siaradwyr ar y llwyfan, gan wneud cyn lleied o sŵn â phosib', ond nid ydym yn disgwyl i chi aros yn llonydd nac ar eich eistedd. Mae croeso i chi symud o gwmpas os oes angen. Rydym yn gofyn i chi 'chwifio yn lle curo dwylo': pan fydd siaradwyr wedi gorffen siarad, chwifiwch eich dwylo yn yr awyr yn lle curo dwylo.

**Ystafelloedd Tawel**
Os ydych yn dymuno treulio rhywfaint o amser allan o’r brif ystafell, mae 2 ystafell dawel ar gael. Mae modd mynd i’r rhain ar unrhyw adeg yn ystod y digwyddiad.

I ddod o hyd i’r ystafelloedd tawel: o ardal y Dderbynfa, ewch i fyny’r grisiau bas o’ch blaen a troi i’r chwith ar unwaith. Ewch drwy’r drysau dwbl sydd o’ch blaenau. Mae’r ddwy ystafell ar y chwith a bydd arwyddion ar y drysau.

(Sylwer, mae’n debyg y bydd y dodrefn yn yr ystafell wedi’u gosod ychydig yn wahanol i’r lluniau isod). Rydym wedi darparu rhai lluniau ychwanegol i roi syniad i chi o sut y gallai'r ystafelloedd gael eu gosod.










**Toiledau**
Mae toiledau ar gael ar y llawr gwaelod.O ardal y Dderbynfa, cerddwch i fyny’r grisiau bas o’ch blaen.

Mae’r toiledau Dynion ar y chwith a thrwy’r drysau dwbl - gyferbyn â’r Ystafelloedd Tawel. Mae Toiled Anabl sy’n niwtral o ran rhywedd wrth ymyl y toiledau Dynion.

Mae’r toiledau Merched ar y dde a thrwy’r drysau dwbl. Mae ciwbicl dwbl yn y toiled Merched.

Sylwer - nid oes sychwyr dwylo mewn unrhyw un o’r toiledau - darperir tyweli papur.

**Cinio**

Bydd y sylwadau i gloi oddeutu 1pm a bydd modd casglu bagiau cinio unigol naill ai o gefn y Neuadd Farmor neu o ardal y Dderbynfa. Os oes gennych chi unrhyw anghenion dietegol, rhowch wybod i ni erbyn 18 Hydref drwy anfon e-bost at rachel.hazlewood@wlga.gov.uk

Mae croeso i chi aros, bwyta eich cinio a sgwrsio gydag aelodau ein tîm, siaradwyr a gwesteion eraill os yr hoffech.
Fel arall, mae modd ymlacio yn ein Hystafelloedd Tawel.

Rydym yn gofyn i chi adael y Deml Heddwch erbyn 2pm.

Bydd aelodau o'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol wrth law drwy'r dydd. Dyma luniau o'r tîm, er mwyn i chi wybod pwy i gadw golwg amdanynt:


**Kirsty**


**Rachel**


**Linda**


**Ieuan**


**Ben**


**Donna**


**Wendy**

**Gwybodaeth arall**

Fe hoffem gasglu eich syniadau a'ch atgofion fel rhan o'r diwrnod. Bydd dau fwrdd yn y digwyddiad i wneud hyn:

'Atgofion' - Beth yw eich atgofion o Niwrowahaniaeth yng Nghymru?
'Gobeithion ar gyfer y dyfodol' - Beth yr hoffech chi ei weld yn y dyfodol ar gyfer pobl niwrowahanol a'n cymunedau yng Nghymru?

Gofynnir i chi roi o'ch amser i ychwanegu eich syniadau at y byrddau neu ofyn i aelod o'r tîm eu hychwanegu ar eich rhan.

**Yn ein digwyddiad bydd pawb yn cael cynnig Bathodyn Cyfathrebu Lliw**

Maent yn ddull o gefnogi rhyngweithio cymdeithasol gyda phobl sydd ag amrywiaeth o wahaniaethau cyfathrebu. Mae bathodynnau cyfathrebu lliw yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y gymuned niwrowahanol mewn gofodau a chynadleddau niwrowahanol.

Maent yn cynnig dull cyffredin o wneud cynhadledd, digwyddiad neu ofod arall yn fwy hygyrch, trwy gynnig y cyfle i nodi'n glir i ba raddau yr ydych yn dymuno cymryd rhan mewn rhyngweithiad cymdeithasol. Os ydych chi'n hapus i siarad gyda phobl, yna gallwch ddewis peidio gwisgo bathodyn neu gallwch ddewis gwisgo'r bathodyn gwyn.

Fe all eich anghenion newid trwy gydol y diwrnod, ac felly gallwch ddewis newid eich bathodyn yn ôl eich angen ar unrhyw adeg.

Enghraifft o fathodynnau cyfathrebu:

**Gwyrdd**

Fe hoffwn i gymdeithasu ond rwy'n cael trafferth dechrau sgwrs. Dechreuwch sgwrs gyda mi.

**Niwtral (Gwyn)**

Rwy'n gallu rheoleiddio fy rhyngweithio fy hun

**Coch**

Peidiwch â dechrau sgwrs gyda mi

**Melyn**

Peidiwch â dechrau sgwrs oni bai fy mod wedi rhoi caniatâd i chi ddod ataf pan fyddaf yn gwisgo bathodyn melyn